**CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00pm. Nos Iau, 22 Awst 2024**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Cyng. Barry Thomas
**Cynghorwyr:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, Evan Wyn Robertson a Tony Thompson,
Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc
Dau aelod o'r cyhoedd

**1.** **Ymddiheuriadau:** Cyng. William Roberts a Keith Roberts (Cynghorydd Sir)

**2.** **Datganiad o Ddiddordeb:** – dim.

Dechreuwyd y cyfarfod gydag eitem 5.1 er mwyn caniatáu i ddau aelod o'r cyhoedd gael cyfle i gyflwyno eu barn ar y cais cynllunio.

**HHP/2024/137 Tros Y Bont, Pontrhydybont.**
Cais llawn am newidiadau ac estyniadau:
Darllenodd y clerc gyflwyniad ysgrifenedig a roddwyd iddi gan un aelod o'r cyhoedd a chafodd y ddau a oedd yn bresennol gyfle i ymhelaethu arno. Ni chafwyd caniatâd i gyhoeddi'r datganiad hwnnw na'i rannu gydag Adran Gynllunio'r Cyngor Sir.
Ar ôl gwrando ar y cyflwyniadau, cytunwyd bod angen gofyn am sicrhad fod digon o le i barcio o flaen y datblygiad a'i fod wedi'i greu o ddeunydd mandyllog i osgoi unrhyw broblemau llifogydd. Byddai'r Cyngor Cymuned hefyd yn cefnogi preswylydd cyfagos wrth fynegi pryder fod posibilrwydd o oresgyniad o'u preifatrwydd o'r ffenestri ochr.

**3.** **Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** derbyniwyd cofnodion 11 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir (cynnig. Cyng. S. Hanbury, eilio. Cyng. T. Thompson).

**4.** **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Disgwyliwyd hysbysfwrdd newydd Pontrydybont yn ystod yr wythnos yn dechrau 16 Medi.

4.2 Dim byd pellach i'w adrodd am gyflwr ffordd heibio Ysgol Rhoscolyn.

**5.** **Materion Cynllunio**

5.1 HHP/2024/137 Tros Y Bont, Pontrhydybont - gweler uchod.

**6.** **Penderfyniadau Cynllunio**

FPL/2024 / 95 Cil y Gwynt Rhoscolyn – gwrthodwyd.

**7.** **Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

7.1 Dechrau Cynghrair Caergybi - Cyng. Susan Hanbury yn dangos diddordeb yn hwn.
7.2 Aelodaeth Medrwn Môn - cytunwyd i ymuno.
7.3 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – cofnodion.
7.4 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Cyng. Susan Hanbury eisiau mynychu hyfforddiant

Iechyd a Diogelwch ar 25 Medi 2024.

**8. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd: adroddiad ariannol SAC am y cyfnod o 1.7.2024 i 31.7. 2024) ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

8.1 Taliadau ers y cyfarfod : cytunwyd i dalu'r rhain:

| Rhwyd | Rhwyd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Cytunwyd i dalu unrhyw anfoneb a dderbyniwyd am wariant a gytunwyd arno yn flaenorol.

**9. Adroddiadau Cynghorwyr**

9.1 Cyng. Barry Thomas:
Dywedodd fod Cyng. Iwan T. Jones a Cyng. Michael Bloor wedi rhoi gwybod iddo eu bod wedi penderfynu ymddiswyddo fel Cynghorwyr Cymunedol. Byddai'r clerc yn ysgrifennu atynt i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth a rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y seddi gwag.

Roedd angen torri'r gwrych rhwng cyffordd y B4545, heibio'r ysgol tuag at Cae'r Sais - roedd yn tyfu allan i'r lon ac yn berygl i blant oedd yn cerdded nôl a blaen i'r Ysgol.

9.2 Cyng. Wyn Robertson: yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y ceisiadau cynllunio ar safle Silver Bay.

9.3 Cyng. Susan Hanbury: wedi dderbyn cwyn fod dŵr yn sefyll wrth Bont Plascoch a bod oglau cryf arno. Byddai'r clerc yn ei adrodd i'r Cyngor Sir yn y lle cyntaf.

9.4 Cyng. Tony Thompson: y gofyn os byddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi trigolion sy'n byw ar gyrion Pontrhydybont (ger Gwesty'r Anchorage) drwy ysgrifennu llythyr cryf at Openreach am y gwasanaeth band eang aneffeithiol iawn yn y cyffiniau hynny. Gofynwyd iddo ddarparu rhagor o wybodaeth i'r clerc allu gwneud hynny.

**10. Cyfarfod nesaf 3 Hydref 2024.**

---

## RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL

### Council Meeting Minutes - 7.00pm. Thursday, 22 August 2024

**Present:** Chair: Councillor Barry Thomas
**Councillors:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, Evan Wyn Robertson and Tony Tompson,
Also present: Mai Owen – Clerk.

Two members of the public.

1. **Apologies: Councillor** William Roberts, Keith Roberts (County Councillor)
2. **Declaration of Interest:** – none

The Chairman announced that he would bring forward item 5.1 so that the two members of the public be given the opportunity to put forward their views on the application.

**HHP/2024/137 Tros Y Bont, Pontrhydybont**
Full application for alterations and extensions:
The clerk read out a written submission given to her by the member of the public and those present were given the opportunity to expand on the written statement. The Community Council was not given permission to publish that statement nor to share it with the County Council Planning Department.
Having listened to the submissions it was agreed to request an assurance that if granted that the driveway allows for sufficient parking and that it was made of a porous material to avoid any flooding issues. The Council would also support the neighbouring resident's concern about overlooking windows and the potential invasion of their privacy.

3. **Minutes of previous meeting:** the minutes of 11 July 2024 were accepted as correct (prop. Cllr. S. Hanbury, sec. Cllr. T. Tompson).

4. **Matters arising from the minutes**

4.1 The new notice board for Pontrydybont was due to be delivered during week commencing 16th September.

4.2 Therew as nothing further to report about the conditio of the road along from Rhoscolyn School.

5. **Planning Matters**

5.1 **HHP/2024/137 Tros Y Bont, Pontrhydybont** - see above.

6. **Planning Decisions**

FPL/2024 / 95 Cil y Gwynt Rhoscolyn – refused.

7. **Correspondence – submitted and noted:**

7.1 Starting Holyhead Alliance - Cllr. Susan Hanbury was interested in attending this.
7.2 Medrwn Môn Membership – agreed to join.
7.3 Town and Community Councils Liaison Forum – minutes.
7.4 One Voice Wales Training – Cllr. Susan Hanbury would attend for Health and Safety training on 25 September 2024.

8. **Financial Matters**

Submitted: The RFO's financial report for the period from 1.7. 2024 to 31.7.2024 together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts.

8.1 Payments – agreed as follows:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhwyd | £250 | | |

It was agreed to pay any invoice received for previously agreed expenditure.

**9.** Councillors' Reports

9.1 Cllr. Barry Thomas:
Reported that Cllrs. Iwan Jones and Michael Bloor had informed him of their decision to resign as Community Councillors. The clerk would write to them to thank them for their service and inform the County Council of the vacant seats.

The hedgerow needed cutting between the B4545 junction, past the school towards Cae'r Sais - it was jutting out across the walk way and a hazard for children walking to and from school.

9.2 Cllr. Wyn Robertson asked for an update on the planning applications on Silver Bay Camp site.

9.3 Cllr. Susan Hanbury reported that there was strong smelling stagnant water by Pont Plascoch. The clerk would report it IOACC in the first instance.

9.4 Cllr. Tony Thompson asked whether the Community Council would support residents living on the outskirts of Pontrhydybont (by the Anchorage Hotel) by writing a strong letter to Openreach about the seriously ineffective broadband service in that vicinity. He was to provide further information for the clerk to be able to do that.

**10. Next Meeting 3 October 2024.**